




DARLLENWCH
Mathew 2: 9-12



ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 2: 11

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 3 Y Doethion a Iesu



Os buoch chi ar daith hir yn y car rywdro, mae'n bosib eich bod wedi cael y profiad o fynd ar goll. Mae colli'r arwyddion ar y ffordd yn beth digon hawdd weithiau. Doedd Duw ddim eisiau gadael i'r Doethion gollu eu ffordd.

Felly, wedi iddynt adael Herod, fe welon nhw'r seren eto. Arweiniodd y seren nhw i'r union fan lle'r oedd Iesu!

Roedd y Doethion yn llawen dros ben pan welsant y seren. Cyn hir, bydden nhw'n cyfarfod â'r Un roedden nhw wedi teithio mor bell i'w weld!



C Sut oedd y Doethion yn teimlo pan welsant y seren?
Rhowch linell drwy'r atebion anghywir.

trist / blinedig / hapus

Ymhen amser, daeth y Doethion i Fethlehem ac fe gyrhaeddodd nhw'r llety lle'r oedd Iesu, Joseff a Mair yn aros. Pan welon nhw Iesu, dyma nhw'n syrthio ar eu gliniau ac yn

Ei addoli Ef.

(Lliwiwch y geiriau)



Roedd y Doethion wedi bod ar daith hir. Mae'n bosibl iddyn nhw ddod o hyd i Iesu ym Methlehem ryw 18 mis ar ôl Iddo gael Ei eni. Ond wnaethon nhw ddim anobeithio! Roedden nhw'n gwybod fod y Plentyn hwn yn berson arbennig iawn ac yn Un gwerth dod o hyd Iddo!

Daeth y Doethion â thair anrheg i Iesu - aur, thys a myrr. Roedd y rhain yn anrhegion drud iawn - fel y rhai y bydd brenhinoedd yn eu cael. Gwyddai'r Doethion nad Plentyn Cyffredin oedd Iesu, felly roedd Ef yn haeddu'r anrhegion gorau posibl.

C Ysgrifennwch enwau'r anrhegion roddodd y Doethion i Iesu oddi tanynt. Yna, lliwiwch y lluniau.



A _ r




Th _ s



M _ r r


6

Ar ôl aros rhyw ychydig, daeth yn amser ymadael. Cofiodd y Doethion fod Herod wedi gofyn iddyn nhw fynd nôl i Jerwsalem. Ond, roedd Duw yn gwybod fod Herod eisiau lladd Iesu. Dywedodd Duw wrth y Doethion mewn breuddwyd am fynd adref yn syth ac i beidio â dweud wrth Herod ble'r oedd Iesu. Felly, i ffwrdd â nhw gan ffoliannu Duw am eu bod, o'r diwedd, wedi gweld y Brenin a'r Gwarddwr roedd Duw wedi Ei roi i'r byd!



Cwblhewch y Grid Geiriau.

- 1) Anrheg a roddwyd gan y Doethion.
- 2) Roedd Herod eisiau gwneud hyn i Iesu.
- 3) Anrheg arall oddi wrth y Doethion.
- 4) Dilynodd y Doethion hon.
- 5) Daeth y Doethion i _____ Iesu.



10